Annwyl Riant / Warcheidwad,

I ddathlu diwedd blwyddyn brysur, rydym yn trefnu teithiau i flynyddoedd 7 ac 8. Bwriedir ymweld â Pharc Chwaraeon a Gwledig Heatherton yn Sir Benfro, ger Arberth. Byddwn yn mynd ar ddydd **Llun y 18fed o Orffennaf** - gadael yr ysgol am 9:00y.b. ac yn dychwelyd erbyn tua 4:30y.h. Mae'r bysiau ysgol arferol wedi'u trefnu i ddod i gasglu'r disgyblion am 4:45 y.p. yn hytrach na 3:20y.p. felly ni fydd angen gwneud trefniadau ychwanegol ar gyfer cludiant adref.
Pris taith **Heatherton bydd £18** a fydd yn cynnwys pris y bws a'r gweithgareddau canlynol yn y parc – 'go-gartiau', pêl-fâs, cychod taro, saethyddiaeth, saethu, colomennod clai laser, 'meistr blastio!', golff antur yn ogsytal a phethau eraill

Mae yna opsiwn gan ddisgyblion **blwyddyn 8 yn unig** i gymryd rhan mewn gêm o 'bêl-baentio' yn lle mynd mewn i Barc Heatherton! **Mae hwn yn costio £20**. **Fe fydd angen pecyn cinio a dillad addas ar gyfer y weithgaredd hon.**

Mae cyfle hefyd i ddisgyblion mynd am rownd o **Golff yn Earlswood, Abertawe**. Er mwyn mynychu'r daith yma mae'n hanfodol eich bod yn gallu chwarae Golff a bod gennych clybiau eich hyn. **Mae'r daith yma yn costio £12,** mae hwn yn cynnwys bws o'r ysgol i'r cwrs Golff a rownd llawn(18 twll) – bydd angen dillad addas a phecyn cinio.

Os ydych yn dymuno i'ch plentyn ddod ar un o'r teithiau yma, llenwch y bonyn ar y gwaelod a'i ddychwelyd gyda'r taliad o £18 neu £20 am bêl-baentio, neu £12 am y Golff (sieciau yn daladwy i Ysgol Bryn Tawe gydag enw a dosbarth eich plentyn ar y cefn) **erbyn dydd Mercher 13eg o Orffennaf**. **Ni fydd unrhyw daliadau yn cael eu derbyn wedi'r dyddiad yma.**

Yn gywir

Mark Bridgens
(Pennaeth Cynorthwyol)

---

Enw eich plentyn ____________________________________________ Dosbarth ______

Rwyf yn caniatáu i fy mhlentyn fynd ar y daith i Heatherton, neu clwb Golff Earlswood ar ddydd Llun 18fed o Orffennaf, ac i gymryd rhan yn y gweithgareddau yn y parc / pêl-beintio (Bl 8 yn unig)

Rwyf yn cynnwys taliad o: £18 am Barc Heatherton ☐
£20 am Bêl-beintio ☐
£12 am Golff ☐

Llofnod Rhiant / Gwarcheidwad: _________________________________ Dyddiad: ___________

**YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE**
**Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU**
**Ffon: (01792) 560600 Ffacs: (01792) 560601**
**E-Bost: YGG.Bryntawe@swansea-edunet.gov.uk**
**Pennaeth: Mr Simon Davies**